**Atodiad 3:**
**Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer Cynllun Strategol Addysg drafft 2026–2030**

Mae'r ffurflen Asesu Effaith ar y Gymraeg yma'n galluogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) i drafod egwyddorion a gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 er mwyn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae i'w darllen ochr yn ochr â'r Cynllun Strategol drafft ar gyfer 2026–2030 a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Effaith Economaidd-Gymdeithasol, gan fod yr wybodaeth ym mhob dogfen yn gysylltiedig ac mae'r themâu ynddyn nhw'n drawsbynciol.

| **Cam 1 - Casglu Gwybodaeth**<br><br>**NODWCH:** Wrth i chi gwblhau'r asesiad yma, bydd gofyn i chi gyflwyno **tystiolaeth i ategu'ch sylwadau**. Gweler Canllawiau Asesu Effaith ar y Gymraeg i gael rhagor o wybodaeth am ffynonellau data. | |
|---|---|
| **Enw'r Cynnig** | Y Cynllun Strategol Addysg Drafft ar gyfer 2026–2030 |
| **Adran** | Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant |
| **Cyfarwyddwr Gwasanaeth** | Gaynor Davies |
| **Swyddog sy'n llenwi'r Asesiad** | Nicola Goodman / Hannah Bebb |
| **E-bost** | Nicola.Goodman@rctcbc.gov.uk / hannah.bebb@rctcbc.gov.uk |
| **Rhif ffôn** | Dd/B |
| **Disgrifiad cryno** | Mae'r Cynllun Strategol Addysg drafft ar gyfer 2026–2030 yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant am y pedair blynedd nesaf, gan amlinellu ein gweledigaeth a'r uchelgais ar gyfer pob un o'n hysgolion yn Rhondda Cynon Taf. Yn Gyfadran Addysg, ein pwrpas craidd yw sicrhau bod gan bob disgybl yn Rhondda Cynon Taf fynediad i ysgolion rhagorol a phrofiadau addysgol cadarnhaol a chyfoethog, sy'n eu galluogi nhw i gyflawni'r deilliannau gorau posibl yn unol â'u gallu.<br><br>Mae'r Cynllun drafft yn canolbwyntio ar yr angen am gydweithio effeithiol i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a chynhwysiant i bawb. Mae'r Cynllun drafft wedi'i ategu gan egwyddor foesol gref a dyhead i fynd i'r afael â'r bwlch mewn cyrhaeddiad (rhwng plant a phobl ifainc sy'n wynebu heriau economaidd-gymdeithasol neu heriau eraill a'r rhai sydd ddim) a sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad at addysgu a dysgu o ansawdd uchel mewn ysgolion rhagorol ac yn derbyn cymorth amserol i gyflawni eu potensial. |
| **Dyddiad** | 17/11/25 |
| **Nodwch ar bwy mae'r cynnig yma'n effeithio. (Defnyddwyr** | Mae'r Cynllun Strategol yn benodol i'r Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant a'n 111 o ysgolion. O'r herwydd, dylai pob plentyn, disgybl, rhiant/gwarcheidwad, a'r cymunedau ehangach sy'n cael eu gwasanaethu gan ein hysgolion elwa o'r ffocws strategol clir yma. Yn ogystal, mae modd i sawl grŵp a sefydliad allanol elwa o'r Cynllun drafft. Mae'r rhain yn cynnwys, ond dydyn nhw ddim yn gyfyngedig i'r canlynol: |

| | |
|---|---|
| **Gwasanaethau, Gweithwyr, y Gymuned Ehangach)** | • Y Gwasanaeth Dysgu Proffesiynol a Chymorth Cwricwlwm rhanbarthol.<br>• Coleg y Cymoedd.<br>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.<br>• Mudiad Meithrin.<br>• RhAG.<br>• Prifysgol De Cymru.<br>• Llywodraeth Cymru. |
| **Beth yw nodau'r polisi, a sut mae'r rhain yn berthnasol i'r Gymraeg?** | Mae'r Cynllun drafft yn cynnwys cyfeiriad strategol clir ar gyfer y pedair blynedd nesaf ac yn cynnwys gweledigaeth a blaenoriaethau cyffredin i gyflawni'r weledigaeth.<br><br>Ein gweledigaeth newydd yw:<br>**'Cydweithio'n effeithiol i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a chynhwysiant i bawb'.**<br><br>Mae ein Cynllun drafft newydd ar gyfer 2026–2030 yn blaenoriaethu'r meysydd a nodwyd o hunanwerthuso gwasanaethau cadarn, adborth Estyn ac adborth cynnar gan randdeiliaid a gasglwyd yn nhymhorau'r gwanwyn a'r haf, 2025. Maen nhw hefyd yn adlewyrchu blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, yn unol â'n Cynllun Corfforaethol 2024–2030 'Gweithio gyda'n Cymunedau'.<br><br>Dyma'r pedair blaenoriaeth strategol ar gyfer 2026–2030 a fydd yn helpu i gyflawni ein gweledigaeth:<br><br>**Blaenoriaeth Strategol 1:** Sicrhau arweinyddiaeth gadarn, trefniadau llywodraethu a gwelliant parhaus trwy gydweithio'n effeithiol<br>**Blaenoriaeth Strategol 2:** Ymgorffori arferion addysgu, dysgu ac asesu rhagorol sy'n sicrhau cynnydd a chanlyniadau da i bawb<br>**Blaenoriaeth Strategol 3:** Sicrhau bod gan bob disgybl fynediad at addysg gynhwysol o'r safon uchaf a'r cymorth cywir i oresgyn rhwystrau i ddysgu a chyfranogiad<br>**Blaenoriaeth Strategol 4:** Darparu Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a Diogel<br><br>Bydd y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant yn ymdrechu i ymgorffori dulliau ac agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg drwy ddatblygiadau strategol pwrpasol ar draws ein hysgolion a'n meysydd gwasanaeth sy'n hyrwyddo twf yn y defnydd o'r Gymraeg a'r ddarpariaeth ledled y Fwrdeistref Sirol. Bydd y Cynllun drafft yn sicrhau y bydd gan bob disgybl fynediad at gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a'u hymwybyddiaeth o'u treftadaeth ddiwylliannol ac wrth wneud hynny bydd yn cefnogi gwaith rhoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Rhondda Cynon Taf ar gyfer 2022–2032 ar waith. |

<table>
<tr>
<td>Pwy fydd yn elwa? / Oes modd i'r polisi effeithio ar grwpiau Cymraeg?<br>Os felly, rhestrwch nhw yma.</td>
<td>Mae'r Cynllun drafft yn benodol i'r Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant. O'r herwydd, mae modd i bob plentyn, disgybl, rhiant/gwarcheidwad, a'r cymunedau ehangach sy'n cael eu gwasanaethu gan ein hysgolion elwa ohono. Yn ogystal, mae modd i sawl grŵp a sefydliad allanol elwa o'r Cynllun drafft. Mae'r rhain yn cynnwys, ond dydyn nhw ddim yn gyfyngedig i'r canlynol:
<ul>
<li>Y Gwasanaeth Dysgu Proffesiynol a Chymorth Cwricwlwm rhanbarthol.</li>
<li>Coleg y Cymoedd.</li>
<li>Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.</li>
<li>Mudiad Meithrin.</li>
<li>RhAG.</li>
<li>Prifysgol De Cymru.</li>
<li>Llywodraeth Cymru.</li>
</ul>
</td>
</tr>
<tr>
<td>Proffil ieithyddol cyfredol yr ardal(oedd) ddaearyddol dan sylw</td>
<td>Bob deng mlynedd mae Cyfrifiad yn cael ei gynnal, sy'n cyfri'r holl bobl ac aelwydydd. Mae'r Cyfrifiad yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth am nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.<br><br>
Mae ffigurau Cyfrifiad 2021 ynghylch y Gymraeg yn dangos bod canran siaradwyr Cymraeg ledled Cymru wedi gostwng i 17.8%. Serch hynny, gwelodd Rhondda Cynon Taf gynnydd bychan gyda chanran poblogaeth y Fwrdeistref Sirol sy'n gallu siarad Cymraeg yn codi o 12.3% i 12.4%. Roedd cynnydd o 2.8% yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol, o 27,779 i 28,556. Rhondda Cynon Taf oedd un o bedwar Awdurdod Lleol yng Nghymru yn unig i weld cynnydd yng nghanran ei siaradwyr Cymraeg. Yr awdurdodau lleol eraill oedd Caerdydd, Merthyr Tudful a Bro Morgannwg. Mae pob un o'r Awdurdodau Lleol yma'n gyfagos, a gallai hynny ddangos bod ein rhanbarth ni'n gweld rhai tueddiadau cadarnhaol o ran cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, ac y gallai'r cynnydd yma arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>
Mae 16 o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol. Mae dwy ysgol pob oed ar gyfer disgyblion 3 i 19 oed, un ysgol gynradd dwy iaith ar gyfer disgyblion 3 i 11 oed a 13 o ysgolion cynradd ar gyfer disgyblion 3 i 11 oed.<br><br>
Mae'r tabl nesaf yn amlinellu cyfanswm y disgyblion oedran ysgol gynradd sydd wedi mynychu ysgolion yn y Fwrdeistref Sirol yn ystod y tair blynedd academaidd ddiwethaf. Maen nhw wedi'u rhannu'n gyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg ac mae'r wybodaeth yn deillio o'r CYBLD:<br><br>
<table>
<tr><th colspan="11">Cyfanswm Disgyblion Oedran Ysgol Gynradd sy'n Mynychu Ysgolion yn y Fwrdeistref Sirol wedi'i rannu'n Gyfrwng Saesneg a Chyfrwng Cymraeg</th></tr>
<tr><th rowspan="3">Categori</th><th colspan="10">Blwyddyn Academaidd</th></tr>
<tr><th colspan="2">2020</th><th colspan="2">2021</th><th colspan="2">2022</th><th colspan="2">2023</th><th colspan="2">2024</th></tr>
<tr><th>Nifer</th><th>%</th><th>Nifer</th><th>%</th><th>Nifer</th><th>%</th><th>Nifer</th><th>%</th><th>Nifer</th><th>%</th></tr>
</table>
</td>
</tr>
</table>

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg** | 18,078 | 81.1% | 17,894 | 81.2% | 17,627 | 81.2% | 17,351 | 81.1% | 17,057 | 80.9% |
| **Ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg** | 4,220 | 18.9% | 4,152 | 18.8% | 4,097 | 18.8% | 4,038 | 18.9% | 4,041 | 19.1% |
| **Cyfanswm y Disgyblion sy'n Mynychu Ysgolion Cynradd** | **22,298** | | **22,046** | | **21,724** | | **21,389** | | **21,098** | |

Mae'r data'n dangos sefydlogrwydd yn y gymhareb rhwng disgyblion oedran ysgol gynradd sy'n mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg a'r rheiny sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg yn ystod y tair blynedd academaidd ddiwethaf.

Mae nifer cyffredinol y disgyblion wedi gostwng o ganlyniad i ostyngiad yn y gyfradd genedigaethau yn RhCT. Mae'r gyfradd genedigaethau wedi gostwng o 2,284 yn 2019–20 i 1,961 yn 2024–25. Fodd bynnag, mae'r data diweddaraf sydd ar gael (CYBLD 2024–25) yn dangos bod nifer y disgyblion tair blwydd oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu. Bwriwch olwg ar y tabl isod:

| Blwyddyn | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| **CYBLD 2019–2020** | 532 | 21.88% |
| **CYBLD 2021–2022** | 511 | 20.78% |
| **CYBLD 2022–2023** | 497 | 20.82% |
| **CYBLD 2023–2024** | 511 | 21.64% |
| **CYBLD 2024–2025** | 519 | 24.07% |

Mae pedair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol. Mae dwy ysgol pob oed ar gyfer disgyblion 3 i 19 oed a dwy ysgol uwchradd ar gyfer disgyblion 11 i 19 oed. Mae'r tabl nesaf yn amlinellu cyfanswm y disgyblion oedran ysgol uwchradd sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg a'r rheiny sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol yn ystod y tair blynedd academaidd ddiwethaf. Mae'r wybodaeth yn deillio o'r CYBLD:

**Cyfanswm y Disgyblion Oedran Ysgol Uwchradd sy'n Mynychu Ysgolion yn y Fwrdeistref Sirol wedi'i rannu'n gyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg**

| Categori | Blwyddyn Academaidd | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2020 | | 2021 | | 2022 | | 2023 | | 2024 | |
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| **Ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg** | 12,868 | 80.4 % | 13,346 | 80.7 % | 13,365 | 81% | 13,316 | 81% | 13,247 | 81.5 % |
| **Ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg** | 3,140 | 19.6 % | 3,197 | 19.3 % | 3,136 | 19% | 3,121 | 19% | 3,006 | 18.5 % |
| **Cyfanswm y disgyblion sy'n mynychu ysgolion uwchradd** | **16,008** | | **16,543** | | **16,501** | | **16,437** | | **16,253** | |

Mae'r data'n dangos sefydlogrwydd yn y gymhareb rhwng disgyblion oedran ysgol uwchradd sy'n mynychu ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg a'r rheiny sy'n mynychu ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn ystod y tair blynedd academaidd ddiwethaf.

Mae data sy'n ymwneud â chyfraddau trosglwyddo yn destun gwaith craffu rheolaidd. Fel y nodwyd yn Adroddiad Cynnydd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2024/25, a gafodd ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Blwyddyn 3 ein Cynllun, roedd cyfanswm o 26 disgybl yn bwriadu gadael addysg cyfrwng Cymraeg ym Mlwyddyn 7 adeg llunio'r adroddiad (haf 2025). O'r nifer yma, roedd 19 o ddisgyblion yn trosglwyddo i ysgolion cyfrwng Saesneg yn Rhondda Cynon Taf ac roedd 7 yn trosglwyddo i ysgolion y tu allan i'r sir, felly doedd yr Awdurdod Lleol ddim yn gwybod ble roedden nhw'n mynd ar gyfer Blwyddyn 7.

| | |
|---|---|
| | Roedd dadansoddiad manwl o drefniadau symud arfaethedig disgyblion o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7 ar gyfer pob ysgol cyfrwng Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf, fesul dalgylch, yn yr adroddiad uchod i Lywodraeth Cymru. Mae disgyblion a oedd yn bwriadu trosglwyddo i leoliad arbenigol o fewn y sir wedi'u heithrio o'r data yma.<br>• Dalgylch Ysgol Gyfun Cwm Rhondda – 93.81% yn trosglwyddo i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg a 6.19% yn trosglwyddo i ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yn Rhondda Cynon Taf.<br>• Dalgylch Ysgol Garth Olwg – 99.40% yn trosglwyddo i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg a 0.6% yn trosglwyddo i ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yn Rhondda Cynon Taf.<br>• Dalgylch Ysgol Llanhari – 88.3% yn trosglwyddo i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ac 11.70% yn trosglwyddo i ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yn Rhondda Cynon Taf.<br>• Dalgylch Ysgol Gyfun Rhydywaun – 100% yn trosglwyddo i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf.<br><br>Mae'r data'n awgrymu y byddai rhai dalgylchoedd yn elwa o gymorth ac ymyrraeth wedi'u targedu, a hynny'n barhaus i gynyddu'r niferoedd sy'n trosglwyddo i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mae hyn wedi bod yn ffocws pwysig ar gyfer blwyddyn 3 y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, a bydd yn parhau i fod yn ffocws yn ystod Blwyddyn 4 a thu hwnt. |
| **Data neu ymchwil perthnasol arall** | Dyma'r prif strategaethau a pholisïau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Strategol drafft ar gyfer 2026–2030:<br><br>Cenedlaethol:<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<br>• Cymwys am Oes: Cynllun Gwella Addysg i ddisgyblion 3 i 19 oed yng Nghymru.<br>• Rhaglen Lywodraethu: diweddariad.<br>• Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg.<br>• Cymraeg 2050: Cynllun gweithredu strategaeth y Gymraeg 2024 i 2025.<br>• Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.<br>• Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw (Cymru) 2013.<br>• Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.<br>• Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011<br>• Cynllun Strategol Carbon Sero-Net Llywodraeth Cymru: 2022.<br>• Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.<br>• Cwricwlwm i Gymru – 2022.<br>• Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir – 2022.<br>• Llywodraeth Cymru – Cenhadaeth ein cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb – 2022.<br>• Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg<br>• Deddf Gofal Plant 2006.<br>• Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru.<br>• Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod. |

| | |
|---|---|
| | • Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.<br>• Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru.<br><br>Rhanbarthol:<br>• Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf: Asesiad Lles 2022.<br><br>Lleol:<br>• Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – 2024 i 2030: 'Gweithio gyda'n Cymunedau'.<br>• Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – 2006 i 2021 (ac yn ei dro, Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig 2022–37 sydd wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru).<br>• Strategaeth Hybu'r Gymraeg Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – 2022 i 2027.<br>• Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – 2022 i 2032.<br>• Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – 2022 i 2027.<br>• Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf 2024–2028.<br><br>Yn fwy penodol:<br>• Mae 'Cenhadaeth ein cenedl' Llywodraeth Cymru yn nodi sut y bydd y sector addysg yn cyflawni safonau a dyheadau uchel i bawb, gan fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad ac uchelgais. Amcan 6 – 'Mae’r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd, gan roi’r cyfle i bob dysgwr gael mynediad cyfartal i’r iaith a’r cyfle i wireddu ei botensial'.<br>• Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – 2024 i 2030: Mae 'Gweithio gyda'n Cymunedau' yn cynnwys amcan lles 'Pobl a chymunedau' ac un o flaenoriaethau'r amcan yma yw bod 'plant a phobl ifainc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd a'r cyfle i ddysgu a thyfu'n ddiogel'. Un o'r camau gweithredu yw 'Darparu amgylcheddau dysgu gwych trwy leoliadau blynyddoedd cynnar ac ysgolion newydd a gwell, gan gynnwys ysgol arbennig newydd a gwneud addysg cyfrwng Cymraeg yn hygyrch i bawb'.<br>• Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – 2024 i 2030: Mae 'Gweithio gyda'n Cymunedau' yn cynnwys yr amcan lles 'Diwylliant, Treftadaeth a'r Gymraeg' ac un o flaenoriaethau'r amcan yma yw 'RhCT lle mae diwylliant a threftadaeth yn fywiog, a bod gwahaniaethau’n cael eu dathlu mewn cymunedau cadarn sy’n hybu llesiant'. Un o'r camau gweithredu yw 'Parhau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg fel ei bod yn ffynnu yn ein cartrefi, ein cymunedau a'n gwaith'.<br>• Mae Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn strategol bwysig oherwydd ei bod yn troi'r dyhead am Gymru ddwyieithog yn realiti statudol ar draws y system. |
| **<u>Cam 2 – Asesu Effaith</u>**<br>**<u>Cam 2 – Asesu Effaith</u>** | |

| |
|---|
| Yma mae angen i chi ystyried yr effaith, y dystiolaeth ac unrhyw gamau rydych chi'n eu cymryd i wella. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw'r cyfleoedd i bobl sy'n dewis byw eu bywydau a manteisio ar wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn israddol i'r hyn sydd ar gael i'r rhai sy'n dewis gwneud hynny yn Saesneg, yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.<br><br>Sylwch fod asesiad effaith ar wahân ar gyfer cydraddoldeb a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol y mae'n rhaid ei gwblhau hefyd ar gyfer cynigion polisi.<br><br>Cofiwch y gallai effeithiau cadarnhaol i rai grwpiau fod yn niweidiol i eraill - hyd yn oed ymhlith grwpiau Cymraeg. Ystyriwch yr effeithiau ar wahanol grwpiau. Er enghraifft, mae'n bosibl bod cynnig o fudd i ddysgwyr Cymraeg, ond nid i siaradwyr Cymraeg.<br><br>**Mae Asesiadau blaenorol o'r Effaith ar y Gymraeg i'w gweld ar Inform trwy glicio <u>yma.</u>** |
| **A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?** |

| | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.** | **Pa dystiolaeth sydd gennych chi i ategu'r farn yma?** | **Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg,**<br><br>megis staff, trigolion ac ymwelwyr.<br><br>Hawliau siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r Cyngor ac i staff ddefnyddio'r | Cadarnhaol. | Bydd Blaenoriaethau Strategol 1–4 yn cael effaith uniongyrchol ar ein gallu i gyflawni'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a chyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg. Er enghraifft, mewn perthynas â Deilliannau 1, 2, 5 a 7.<br><br>• Bydd ffocws y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gynyddu nifer y plant meithrin/tair blwydd oed a nifer y plant dosbarth derbyn/pum mlwydd oed sy'n derbyn eu haddysg drwy | Bydd Deilliant 1 y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn parhau i ganolbwyntio ar gynyddu nifer y plant 3 blwydd oed sy'n manteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy ystod o fentrau, megis sesiynau Cymraeg i Blant. Bydd ein buddsoddiad sylweddol mewn darpariaeth blynyddoedd cynnar yn parhau o dan Flaenoriaeth Strategol 4, a bydd hyn yn cael effaith uniongyrchol ar Ddeilliant 1 y Cynllun. Mae cynnydd cryf ar Ddeilliant 1 wedi'i wneud yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25 | Mae cyfarfodydd is-grŵp ddwywaith y flwyddyn ar gyfer pob un o'r saith deilliant yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a dau gyfarfod y flwyddyn ar gyfer y Grŵp Llywio. Mae pob is-grŵp y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cael ei arwain gan Uwch Reolwr ac mae'r Grŵp Llywio yn cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant. Caiff cynnydd yn erbyn y cynllun ei fonitro yn y cyfarfodydd yma, gan y Pwyllgor Craffu – Addysg a Gwasanaethau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gymraeg yn y gwaith. | | gyfrwng y Gymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg (Deilliannau 1 a 2).<br>• Mae gan y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ffocws cryf ar wella'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach (Deilliant 5) a dylai hyn hefyd gael effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg. Er enghraifft, mae gwaith strategol ar raglen Cymraeg Campus y Siarter Iaith yn parhau i hyrwyddo defnydd y Gymraeg ym mhob ysgol. Bydd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn parhau i ganolbwyntio ar gryfhau gwaith partneriaeth gydag ystod o bartneriaid megis Urdd Gobaith Cymru a Menter Iaith fel bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn amrywiaeth o gyd-destunau.<br>• Mae Deilliant 7 y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn rhoi ffocws cryf ar gynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu'r Gymraeg fel pwnc ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. | ac mae'n debygol y bydd hyn yn parhau gyda buddsoddiad parhaus. Mae bron pob ysgol yn RhCT bellach yn cymryd rhan yn rhaglen Cymraeg Campus y Siarter Iaith. Dim ond 1 ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg sydd heb gymryd rhan eto.<br><br>O ran Deilliant 2, mae'r targed o gynyddu canran y disgyblion Blwyddyn Un sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn gofyn am sawl dull gwahanol. Mae'r Cyngor yn parhau i feithrin perthnasoedd gwaith adeiladol gyda'r holl grwpiau a sefydliadau perthnasol a all helpu cyrraedd y nod, a chynnal y perthnasoedd hynny. Mae sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg ar gael i bawb yn y lleoliad cywir waeth pa anghenion dysgu sydd gyda nhw, o ddechrau'r blynyddoedd cynnar, trwy'r ysgol gynradd ac uwchradd, ac ymlaen at addysg bellach ac addysg uwch, yn allweddol wrth gyflawni'r nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Bydd Blaenoriaeth Strategol 4 y Strategaeth yn sicrhau twf a buddsoddiad parhaus mewn addysg cyfrwng Cymraeg. | Cynhwysiant a chan Lywodraeth Cymru, sy'n mynychu cyfarfodydd ein Grŵp Llywio yn rheolaidd ac yn rhoi adborth ar ein hadroddiad cynnydd sy'n cael ei gyflwyno ym mis Gorffennaf bob blwyddyn.<br><br>Mae cynnydd yn erbyn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn destun gwaith craffu'n rheolaidd gan y Pwyllgor Craffu – Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant. Mae pob rhaglen fuddsoddi sylweddol yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet i'w chymeradwyo, ac mae pob cynnig sy'n gofyn am ymgynghoriad statudol yn cael ei drafod gan y Pwyllgor Craffu – Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant.<br><br>Mae adolygiadau rheolaidd o'n cyflawniad yn erbyn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn golygu bod modd nodi risgiau'n gynnar a'u hunioni. Ar ben hynny, os caiff Cynllun Strategol Addysg ei gymeradwyo, bydd yn fframwaith ar gyfer pob cynllun cyflawni. Bydd hefyd yn destun: rheoli cyflawniad rheolaidd; monitro, |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gwerthuso ac adolygu; a monitro corfforaethol. |
| | | Bydd pob deilliant yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cael effaith ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd y Strategaeth yn sicrhau bod y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn flaenoriaeth uchel am y 4 blynedd nesaf a thu hwnt, ac mae wedi'i nodi'n benodol o dan Flaenoriaeth Strategol 1. | O ran Deilliant 5, mae llawer o ysgolion wedi dringo rhengoedd y gwobrau eleni, gyda llawer o ysgolion cyfrwng Saesneg yn cyflawni gwobr aur Cymraeg Campus. Mae llawer o ysgolion cyfrwng Saesneg wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg wedi'u trefnu gan Urdd Gobaith Cymru drwy gydol 2024/25, gyda thair ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn manteisio ar glybiau ar ôl ysgol yr Urdd. Mae Menter Iaith RhCT wedi rhoi cymorth i dair ysgol cyfrwng Saesneg i gynnal gweithgareddau Cymraeg. Bydd y gwaith yma'n parhau i ddatblygu.<br><br>Mae Deilliant 7 yn canolbwyntio ar gynllunio'r gweithlu, cynllunio ar gyfer y dyfodol a buddsoddiad mewn hyfforddiant a rhaglenni arweinyddiaeth. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ein gallu i dyfu'r gweithlu a darparu addysg cyfrwng Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf.<br><br>Bydd Blaenoriaeth Strategol 4 yn y Cynllun Strategol Addysg | Drwy ddadansoddi data'n rheolaidd ac ymyrraeth wedi'i thargedu lle bo angen. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | newydd yn ein galluogi ni i gyflawni hyn.<br><br>Caiff data a gwybodaeth yn ymwneud â chyfleoedd y gweithlu eu rhannu gyda Swyddog Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor ac aelodau is-grwpiau perthnasol sydd wedi'u sefydlu i ganolbwyntio'n benodol ar y saith deilliant unigol, sydd hefyd yn cynnwys cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu'r Gymraeg fel pwnc ac addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.<br>Mae gan y Gwasanaeth Dysgu Proffesiynol a Chymorth Cwricwlwm sydd newydd ei gomisiynu'r capasiti i gefnogi datblygiad darpariaeth cyfrwng Cymraeg ledled RhCT.<br><br>Mae gan y Gwasanaeth Gwella Ysgolion newydd yn RhCT Swyddogion Gwella Ysgolion penodol sy'n siarad Cymraeg. Mae nifer o geisiadau am gyllid grant wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer clystyrau ysgolion cyfrwng Cymraeg i ategu blaenoriaethau strategol yn y sector ac i gryfhau cydweithio rhwng ysgolion. Bydd Blaenoriaethau Strategol 1 i 4 yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar ein gallu i | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | gyflawni'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer y pedair blynedd nesaf a thu hwnt.<br><br>Bydd gwella cymwysterau a deilliannau ar gyfer y Gymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar Ddeilliant 4. Mae data deilliannau ar ddiwedd blynyddoedd 11, 12 a 13 yn cael eu dadansoddi a'u gwerthuso'n rheolaidd i fonitro canlyniadau TGAU, Safon Uwch Gyfrannol a Safon Uwch er mwyn darparu cymorth wedi'i dargedu lle bo angen. Mae'r gwaith dadansoddi yma hefyd yn berthnasol i ddata presenoldeb a gwaharddiadau mewn achosion lle mae modd adolygu cynnydd gwahanol ysgolion a grwpiau agored i niwed. | |
| | | Mae'r Cynllun drafft yn canolbwyntio ar gydweithio, tegwch a chynhwysiant a fydd, yn ei dro, yn cyfrannu at gyflawni nodau cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Un o nodau trosfwaol y Ddeddf yw creu 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu'. Felly, o dan y Cynllun drafft bydd gan bob disgybl fynediad | Mae gan y Gwasanaethau Cynhwysiant ddyletswydd i sicrhau bod digon o ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ar gyfer disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg a gwerthuso'r deilliannau i ddisgyblion sy'n manteisio ar gymorth arbenigol. Mae buddsoddiad dros y blynyddoedd diwethaf wedi arwain at sefydlu darpariaeth dosbarthiadau cynnal | Lle bo angen, bydd cynigion ar gyfer gwella'r ddarpariaeth yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet i'w hystyried. Byddai darpariaeth ADY uwchradd cyfrwng Cymraeg ychwanegol (lle bo angen) yn cyfrannu ymhellach at ragor o effeithiau cadarnhaol. Mae gofyniad statudol i adolygu darpariaeth ADY yn barhaus er mwyn sicrhau bod darpariaeth yn ddigonol. Ar hyn o bryd mae |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | at gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg os yw'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cael ei roi ar waith mewn modd effeithiol gyda ffocws clir ar gynyddu nifer y plant sy'n derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn y blynyddoedd meithrin a derbyn, gwella sgiliau Cymraeg wrth bontio rhwng ysgolion, cynyddu nifer y disgyblion sy'n astudio ac yn cyflawni cymwysterau yn y Gymraeg, cynyddu nifer y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ysgolion, ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY a chynyddu nifer yr athrawon cymwys sy'n siarad Cymraeg. | dysgu cyfrwng Cymraeg arbenigol ar gyfer disgyblion oedran ysgol uwchradd yn Ysgol Garth Olwg, yn ogystal ag agor dau ddosbarth cynnal dysgu cyfrwng Cymraeg newydd yn Ysgol Gynradd Gymraeg Awel Taf. Dyma'r ddarpariaeth gyntaf o'i math ar lefel ysgol gynradd yn Rhondda Cynon Taf ac mae'n gyflawniad allweddol o ran gwella'r ddarpariaeth lleoliadau ADY arbenigol cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn y sir ar gyfer disgyblion ag ADY sylweddol.<br><br>Mae'r Rhaglen Bwyd a Hwyl yn parhau i redeg dros gyfnod gwyliau'r haf yng nghymunedau mwyaf difreintiedig y Fwrdeistref, ac mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn rhan o'r cynnig yma. Cafodd y rhaglen ei chynnal mewn 14 o ysgolion dros haf 2025, gan gynnwys Ysgol Gynradd Gymraeg Awel Taf ac Ysgol Gynradd Gymraeg Abercynon. Cynhaliodd naw ysgol ychwanegol y rhaglen ac roedd modd i ddisgyblion ysgolion cyfrwng Cymraeg y cymunedau yma fynychu, e.e. croesawodd Ysgol Gymuned Tonyrefail ddisgyblion Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail. Roedd tair Ysgol Arbennig hefyd | capasiti yn y darpariaethau cyfrwng Cymraeg a bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro i sicrhau bod hyn yn parhau i fod yn wir. Os bydd angen ehangu o gwbl, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i leoliadau daearyddol er mwyn sicrhau dosbarthiad teg o ddarpariaeth yn ôl y galw a'r angen.<br><br>Mae cyfleoedd ehangach i gymryd rhan mewn gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu darparu mewn darpariaethau cyfrwng Saesneg hefyd, gyda'r holl staff yn cael eu hannog i ddefnyddio dulliau dwyieithog.<br>Bydd Cyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn parhau i gyflawni'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a'i ddeilliannau mewn cydweithrediad â phartneriaid mewnol, sefydliadau Cymraeg a Llywodraeth Cymru. Bydd Blaenoriaethau Strategol 1 i 4 yn cael effaith ar gyflawniad y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Cydweithio yw |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | yn rhan o'r prosiect yn ystod 2024/25. | ein gweledigaeth newydd, sy'n hanfodol er mwyn ei gyflawni'n llwyddiannus. |
| | | Mae Blaenoriaethau Strategol 1 a 2 yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth a'r gweithlu ac ar bwysigrwydd ymgorffori arferion addysgu a dysgu rhagorol. Mae Blaenoriaeth Strategol 2 yn cynnwys datblygu cyfleoedd addysgu a dysgu Cymraeg i staff a disgyblion. Bydd y Gwasanaeth Dysgu Proffesiynol a Chymorth Cwricwlwm rhanbarthol yn parhau i roi cymorth i ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg ar amrywiaeth o faterion cwricwlwm, gan gynnwys dulliau a fydd yn gwella sgiliau Cymraeg. Bydd y gwasanaeth gwella ysgolion newydd a'r cydweithrediadau hefyd yn gwella darpariaeth a safonau cyfrwng Cymraeg yn ein hysgolion.<br><br>Mae cydweithrediadau gwella ysgolion wedi'u sefydlu rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg i gyflymu gwelliant ysgolion, gan gynnwys model gwella ysgolion pwrpasol ar gyfer ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg ym | Mae ystod o gyfleoedd ar gael i staff sy’n gweithio mewn ysgolion yn Rhondda Cynon Taf os ydyn nhw'n dymuno gwella neu uwchsgilio eu sgiliau Cymraeg fel bod modd iddyn nhw ddefnyddio'r Gymraeg yn amlach yn y gwaith. Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol bellach yn cynnig cyrsiau wedi'u hariannu'n llawn i ymarferwyr mewn ysgolion er mwyn iddyn nhw ymgymryd â chyfleoedd hyfforddi ac uwchsgilio er mwyn gwella eu sgiliau Cymraeg. Mae tiwtor penodol wedi'i benodi i weithio gyda Chynghorau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Chaerffili i sicrhau bod cynnig mwy cadarn o ddarpariaeth ar gael i ymarferwyr.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Dysgu Proffesiynol a Chymorth Cwricwlwm rhanbarthol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn hyrwyddo'r cyfleoedd yma ar eu sianeli perthnasol. Mae Cyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn | Bydd Cyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn parhau i weithio gyda'r Gwasanaeth Dysgu Proffesiynol a Chymorth Cwricwlwm rhanbarthol, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac ysgolion yn RhCT i hyrwyddo'r ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol sydd ar gael i unrhyw staff ysgol sy'n chwilio am gyfleoedd i ddysgu, gwella neu uwchsgilio eu sgiliau Cymraeg.<br><br>Bydd Swyddog Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor a Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor yn parhau i weithio gyda staff yn fewnol a sefydliadau partner Cymraeg i annog a hwyluso twf hirdymor i’r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Mwrdeistrefi Sirol Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr.<br><br>Mae ymrwymiad clir yn y Cynllun drafft i fynd i'r afael â'r bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng plant a phobl ifainc sy'n byw mewn tlodi a'r rhai sydd ddim, ac mae Blaenoriaeth Strategol 3 yn ceisio sicrhau bod **pob** disgybl yn cael mynediad at addysg gynhwysol o'r ansawdd uchaf ac yn derbyn cymorth i oresgyn rhwystrau i ddysgu a chyfranogiad.<br><br>Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor yn canolbwyntio ar gynyddu canran y disgyblion Blwyddyn Un mewn addysg Gymraeg i 30% erbyn 2032. Bydd yr ystod o strategaethau a mentrau sydd wedi cael eu rhoi ar waith, ac a fydd yn cael eu rhoi ar waith drwy gydol oes 10 mlynedd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn darparu cyfleoedd cynyddol i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. | hyrwyddo'r cyfleoedd yma ymhellach gydag ysgolion yn uniongyrchol drwy gydol y flwyddyn academaidd.<br><br>Mae'r Cyngor yn cynnig cyfleoedd i'w holl staff mewnol ym mhob gwasanaeth gael hyfforddiant am ddim i wella eu sgiliau Cymraeg. Mae'r Gwasanaethau Cymraeg yn gweithio i ddatblygu cymorth technolegol i siaradwyr Cymraeg ac i ddysgwyr fel bod modd i'r Cyngor ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n ofynnol i holl aelodau o staff newydd y Cyngor ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg Lefel 1. Trwy weithio gydag Uned Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor, yn benodol y tiwtor Cymraeg mewnol, mae pob aelod o staff yn cael ei annog i barhau i wella ei sgiliau Cymraeg y tu hwnt i Lefel 1. Bydd aelodau o staff sy'n dewis gwneud hyn yn cael eu cefnogi'n llawn. Bydd hyn yn cefnogi'r cyfleoedd sydd ar gael i'r Cyngor i greu gweithlu dwyieithog gyda'r gallu i weithio a darparu gwasanaethau'n ddwyieithog.<br><br>Cafodd cynllun gwarantu cyfweliad y Cyngor i siaradwyr Cymraeg ei roi ar waith yn 2024– | Bydd y Cyngor yn parhau i hyrwyddo'r cynllun yma'n rhan o |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | 25. Mae hyn yn gwarantu cyfweliad yn achos unrhyw siaradwyr Cymraeg sy'n gwneud cais am swyddi o fewn Cyngor RhCT. Mae hyn wedi'i roi ar waith gyda'r nod o ddenu rhagor o siaradwyr Cymraeg i'r gweithlu, gan sicrhau bod gyda ni weithlu cryf sy'n siarad Cymraeg i ddarparu'r holl wasanaethau.<br><br>Drwy ddenu rhagor o siaradwyr Cymraeg i'r gweithlu, bydd hyn yn helpu'r Cyngor i gael gweithlu cryf sy'n siarad Cymraeg i ddarparu'r holl wasanaethau, gan gael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.<br><br>Yn unol â Safonau Cymraeg Statudol y Cyngor, rhaid i unrhyw gyhoeddiadau, dogfennau a gohebiaeth gan y Cyngor fod yn ddwyieithog gyda neges wedi'i chynnwys yn nodi y croesewir gohebiaeth yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. | unrhyw hysbysebion swyddi gwag newydd.<br><br>Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i gryfhau ein dull o ddenu rhagor o staff i weithio yn RhCT trwy wefan well a fideos hyrwyddo.<br><br>Byddwn ni'n parhau i sicrhau bod unrhyw gyhoeddiadau, dogfennau a gohebiaeth gan y Cyngor yn ddwyieithog gyda neges wedi'i chynnwys yn nodi y croesewir gohebiaeth yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Mae adeiladau ysgol newydd bellach hefyd yn cynnwys braille dwyieithog ar arwyddion ysgol gan ddarparu cyfle cyfartal o ran y Gymraeg a chydraddoldeb. |

**Cam 2 – Asesu Effaith**

**Cam 2 – Asesu Effaith**

| A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol? | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.** | **Pa dystiolaeth sydd gennych chi i ategu'r farn yma?** | **Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
| **Niferoedd a/neu ganrannau'r siaradwyr Cymraeg.**<br><br>e.e. addysgu cyfrwng Cymraeg/cyfleoedd astudio. Cysylltiadau â Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru / Strategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd Cyngor Rhondda Cynon Taf | Cadarnhaol. | Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cefnogaeth wedi'i rhoi i hyrwyddo a chynyddu defnydd disgyblion o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd mewn cyd-destunau cymdeithasol. Mae hyn wedi'i wneud drwy gyflwyno Cymraeg Campus y Siarter Iaith.<br><br>Dyma'r data ar gyfer ymgysylltu â rhaglen Cymraeg Campus y Siarter Iaith (o fis Medi 2025):<br><br>○ Mae pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg wedi derbyn y wobr efydd.<br>○ Mae 14 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg wedi derbyn y wobr arian.<br>○ Mae 10 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg wedi derbyn y wobr aur.<br>○ Mae 3 ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg wedi derbyn y wobr efydd. | Caiff data a gwybodaeth yn ymwneud â rhaglen Cymraeg Campus y Siarter Iaith eu rhannu gyda Swyddog Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor ac aelodau o is-grŵp Deilliant 5 y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sydd wedi'i sefydlu i ganolbwyntio'n benodol ar y deilliant yma, sydd â'r nod o gynyddu cyfleoedd i ddisgyblion defnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol.<br><br>Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, ar draws y cwricwlwm ac mewn cyd-destunau ehangach mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, i sicrhau bod disgyblion ar lwybr parhaus o ran eu dilyniant ieithyddol a bod hyn yn eu helpu wrth bontio rhwng Cyfnodau Allweddol. Mae hyn yn cynnig cyfle i bob disgybl ddod yn gwbl ddwyieithog ac mae'n cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru. | Bydd y Gwasanaeth Dysgu Proffesiynol a Chymorth Cwricwlwm rhanbarthol yn parhau i gefnogi pob ysgol i hyrwyddo a chynyddu defnydd disgyblion o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ac i ddringo rhengoedd y gwobrau.<br><br>Bydd Cyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn parhau i gefnogi ysgolion i hwyluso defnydd y Gymraeg ar draws y cwricwlwm yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru.<br><br>Bydd Cyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn parhau i gyflwyno amrywiaeth o fentrau i weithio tuag at gynyddu nifer a chanran y disgyblion sy'n cael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ○ Mae 1 ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg wedi derbyn y wobr arian.<br>○ Mae 60 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg wedi derbyn y wobr efydd.<br>○ Mae 28 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg wedi derbyn y wobr arian.<br>○ Mae 9 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg wedi derbyn y wobr aur.<br>○ Mae 7 ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg wedi derbyn y wobr efydd.<br>○ Mae 5 ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg wedi derbyn y wobr arian.<br>○ Mae 4 ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg wedi derbyn y wobr aur.<br>○ Mae 5 ysgol arbennig/uned cyfrwng Saesneg wedi derbyn y wobr efydd.<br><br>Mae un ysgol yn RhCT sydd heb ymgysylltu â'r ddarpariaeth eto. Mae'r Gwasanaeth Dysgu Proffesiynol a Chymorth Cwricwlwm rhanbarthol yn parhau i weithio gyda'r ysgol i'w hannog i gymryd rhan yn y rhaglen.<br><br>Y nod yw ymgorffori arferion ac agweddau cadarnhaol tuag at y | Mae data CYBLD 2021–2022 yn dangos bod 20.78% o blant tair blwydd oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r data diweddaraf a oedd ar gael wrth lunio'r adolygiad yma, sef CYBLD 2024–2025, yn dangos bod y ganran yma wedi cynyddu i 24.07%. Mae hyn yn dangos yr effaith gadarnhaol y mae cyflawni'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn ei chael ar niferoedd a chanrannau'r bobl sy'n siarad Cymraeg ac yn cefnogi gweledigaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.<br><br>Bydd cyflwyno cyfleoedd wedi'u hariannu i staff ysgolion ddysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau presennol yn cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 a'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, yn benodol o dan Ddeilliant 7 y Cynllun.<br><br>Caiff data a gwybodaeth yn ymwneud â'r cyfleoedd yma eu rhannu gyda Swyddog Cynllun | Bydd Cyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn parhau i weithio gyda'r Gwasanaeth Dysgu Proffesiynol a Chymorth Cwricwlwm rhanbarthol, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac ysgolion yn RhCT i hyrwyddo'r ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol sydd ar gael i unrhyw staff sy'n chwilio am gyfleoedd i ddysgu, gwella neu uwchsgilio eu sgiliau Cymraeg.<br><br>Bydd Swyddog Arweiniol Trochi yn y Gymraeg y Cyngor yn parhau i fonitro a gwerthuso'r ddarpariaeth a chanlyniadau disgyblion i sicrhau bod y strwythur a'r rhaglen yn addas ar gyfer pob disgybl unigol.<br><br>Bydd Cyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn sicrhau bod adnoddau marchnata sy'n hyrwyddo'r ddarpariaeth trochi yn y Gymraeg yn cael eu rhannu mor eang â phosibl ledled cymunedau lleol yn RhCT i gefnogi'r galw parhaus am y gwasanaeth. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Gymraeg trwy gynllunio pwrpasol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith disgyblion yn yr ysgol a thu hwnt.<br><br>Mae saith prif ddeilliant i'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, ac mae dau ohonyn nhw'n canolbwyntio'n benodol ar gynyddu nifer y plant tair blwydd oed a phum mlwydd oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd cyflawni'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cael effaith gadarnhaol ar niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg, os byddwn ni'n cyrraedd y targedau yn y cynllun.<br><br>Wrth gyfrannu at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, ac yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor, mae'n hollbwysig sicrhau gweithlu digon o faint ac â gallu digonol mewn ysgolion. Rhaid i ni weithio ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol i sicrhau ein bod ni'n creu gweithlu mewn ysgolion â sgiliau ieithyddol cadarn, sy'n gallu ysbrydoli ac ysgogi'r sawl sy'n dysgu | Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor ac aelodau o is-grŵp Deilliant 7 y Cynllun, sydd wedi'i sefydlu i ganolbwyntio'n benodol ar y deilliant yma, sydd â'r nod o gynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) ac addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Cymraeg a disgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg.<br>Fel sydd wedi'i nodi uchod, mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cynnig hyfforddiant a chyrsiau uwchsgilio Cymraeg wedi'u hariannu'n llawn i ymarferwyr mewn ysgolion. Mae hyn yn ychwanegol at y cynnig dysgu proffesiynol Cymraeg sydd ar gael gan y Gwasanaeth Dysgu Proffesiynol a Chymorth Cwricwlwm rhanbarthol.<br><br>Mae'r Cyngor bellach yn darparu cymorth trochi yn y Gymraeg i ddisgyblion sy'n hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r cymorth yma ar gael ar hyn o bryd i ddisgyblion Blynyddoedd 2 i 6 sy'n trosglwyddo o ysgol cyfrwng Saesneg i ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae'r ddarpariaeth yn cefnogi disgyblion i ddatblygu sgiliau Cymraeg yn gyflymach, gan effeithio'n uniongyrchol ar niferoedd a chanrannau'r disgyblion sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. | Mae dulliau trochi iaith wedi'u nodi fel y ffyrdd mwyaf effeithiol o helpu disgyblion nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg i ddysgu'r iaith. Ers i'r garfan ddechrau cefnogi disgyblion o 2022, mae cyfanswm o 32 o ddisgyblion wedi cael mynediad at y ddarpariaeth ac wedi pontio i ystafell ddosbarth cyfrwng Cymraeg. Yn ystod 2024-2025, cafodd y garfan ei hehangu mewn ymateb i'r galw cynyddol am ddarpariaeth drochi. Cynhaliwyd arolygiad Estyn cadarnhaol o'r Gwasanaeth Trochi yn y Gymraeg ym mis Hydref 2025. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg sydd â chyfleusterau at ddefnydd y gymuned yn cael eu hannog a'u cefnogi'n weithredol i ddefnyddio'r cyfleusterau sydd ar gael i gynyddu cyfranogiad yn y Gymraeg drwy gynnal gwersi Cymraeg ac/neu unrhyw gyfleoedd eraill i'r gymuned ymgysylltu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae rhieni/gwarcheidwaid a'r gymuned ehangach yn cael eu cefnogi a'u hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg i wella eu hyder a chadw eu sgiliau Cymraeg.<br><br>Drwy fuddsoddi'n helaeth mewn adeiladu ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd neu gynnal gwaith adnewyddu sylweddol i greu Ysgolion yr 21ain Ganrif drwy Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, bydd modd i ragor o ddisgyblion ledled y sir gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg mewn adeiladau ysgolion hygyrch o ansawdd uchel. Mae Blaenoriaeth Strategol 4 yn canolbwyntio ar 'ddarparu cymunedau dysgu cynaliadwy a diogel', gan gynnig cyfleusterau | Gall poblogrwydd dosbarthiadau trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghanolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg ddangos bod galw am ddosbarthiadau cyfrwng Cymraeg. Bob wythnos, mae 82 o bobl yn defnyddio'r ganolfan i ymgymryd â'r cyrsiau Lefel Mynediad, Sylfaen neu Uwch i ddysgu Cymraeg.<br><br>Darperir adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant mewn perthynas â thargedau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg:-<br><br>• Y Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant – Mawrth 2023<br><br>• Y Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant – Rhagfyr 2024<br><br>• Y Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant – Medi 2025<br><br>Mae'r adroddiadau yma'n dangos y cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn bron pob deilliant. Deilliant 7 yw'r mwyaf heriol i'w gyflawni gan fod hwn hefyd yn dibynnu ar ffactorau cenedlaethol a all fod yn anodd eu lliniaru ar lefel leol. | Bydd y Cyngor yn parhau i annog ysgolion i gynnal achlysuron a sesiynau Cymraeg, gan wahodd grwpiau Cymraeg i ddefnyddio'r man sydd ar gael i gynnal unrhyw ddosbarthiadau/sesiynau Cymraeg eraill yn yr ysgol.<br><br>Mae gan ein hysgolion cyfrwng Cymraeg nifer sylweddol o leoedd dros ben i ddiwallu angen. Fodd bynnag, mae buddsoddiad parhaus wedi'i gynllunio drwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, a fydd yn arwain at dwf yn nifer y cyfleusterau ysgolion yr 21ain Ganrif gwell, gyda buddsoddiad sylweddol yn y sector ysgolion cyfrwng Cymraeg.<br><br>Bydd pob targed y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cael ei fonitro'n agos mewn is-grwpiau a chyfarfodydd y grŵp llywio, a thrwy lwybrau monitro mwy ffurfiol ar lefel Llywodraeth Cymru, a thrwy gyflawni Cynlluniau ein Cyfadran a Gwasanaethau ar ffurf monitro |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ysgolion yr 21ain ganrif er budd disgyblion, staff a'r gymuned ehangach.<br>Mae'r Cyngor yn parhau i fuddsoddi mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg.<br><br>Bydd y Cyngor hefyd yn parhau i weithio ar ddatblygu a chyflawni prosiectau sydd wedi'u hariannu trwy Gynllun Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant a Chynllun Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru. Mae'r prosiectau yma'n cefnogi gwaith cyfalaf sy'n hwyluso twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg, gyda chyllid wedi'i anelu'n benodol at ddatblygu neu ehangu lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg wedi'u cydleoli ar safleoedd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. | Caiff cynnydd wrth ddatblygu prosiectau Rhaglen Dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ei werthuso'n rheolaidd. Dyma fanylion prosiectau presennol sy'n cael eu hystyried neu sy'n cael eu rhoi ar waith: Y Diweddaraf am y Rhaglen Dreigl Newydd – Cymunedau Dysgu Cynaliadwy<br><br>Bydd cyfleusterau newydd yn cael eu darparu ar gyfer sawl ysgol cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys:<br>- Ysgol Cwm Rhondda (ysgol uwchradd)<br>- Ysgol Llanhari (ysgol pob oed)<br>- Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd (ynghyd â darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg) wrth ymyl Ysgol Gynradd Dolau.<br><br>Mae lleoliad gofal plant a blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg newydd hefyd yn cael ei adeiladu'n rhan o'r ysgol gynradd | Corfforaethol chwarterol, ac adroddiadau i'r Pwyllgor Craffu. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | cyfrwng Saesneg newydd ar gyfer Glyn-coch.<br><br>Bydd y rhain yn ychwanegu at yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg newydd a agorwyd yn ddiweddar ar gyfer YGG Awel Taf ac YGG Llyn y Forwyn, yn ogystal â'r estyniad i Ysgol Gyfun Rhydywaun ac estyniad ystafell ddosbarth i YGG Castellau.<br><br>Mae YGG Castellau a Chanolfan Cymuned Penderyn, lle mae Cylch Meithrin Penderyn yn gweithredu, wedi derbyn buddsoddiad sylweddol i ddatblygu darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. O ran y ddau gynllun, darparwyd buddsoddiad cyfunol gwerth dros £2.3 miliwn mewn darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Roedd adeiladu estyniad ystafell ddosbarth ar gyfer YGG Castellau yn golygu bod modd i'r ysgol ildio ei hystafell bresennol ar gyfer y dosbarth meithrin i ddod yn gyfleuster gofal plant pwrpasol, heb effeithio ar ffigurau capasiti disgyblion yr ysgol. Cafodd y prosiect yma ei gyflawni yn ystod tymor yr Hydref 2024. Yn yr un modd, darparwyd estyniad unllawr i gefn Canolfan | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Cymuned Penderyn, ynghyd â gwaith ailfodelu ac adnewyddu mewnol, sy'n golygu bod gan Gylch Meithrin Penderyn ei fan pwrpasol ei hun gyda thoiledau i'r plant, ardal paratoi bwyd a man chwarae pob tywydd diogel yn yr awyr agored. Cafodd hyn ei gyflawni yn nhymor y Gwanwyn 2025. | |
| **Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg**<br><br>e.e. statws, defnyddio Gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg yn rhan o fywyd beunyddiol yn y gwaith ac yn y gymuned<br><br>Mynd ati'n weithredol i annog a hyrwyddo'r defnydd o'n gwasanaethau Cymraeg i weld cynnydd yn y galw dros amser. | Cadarnhaol. | Erbyn hyn mae gan y Gymraeg statws swyddogol a deddfwriaeth mewn lle sy'n rhoi hawliau i siaradwyr Cymraeg dderbyn gwasanaethau Cymraeg. Yr her yw ehangu'r cyfleoedd i bobl allu defnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd trwy greu'r amodau cywir i ddisgyblion newydd o bob oed ddatblygu a defnyddio eu sgiliau o'r cyfnodau cynharaf a thrwy bob cam o addysg. Er mwyn sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, bydd pob ysgol yn parhau i gael ei chefnogi i weithio drwy wobrau rhaglen Cymraeg Campus y Siarter Iaith er mwyn manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith mewn gwahanol gyd-destunau mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg. | O ran y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, mae tystiolaeth bod ein dulliau'n effeithiol ac yn gwneud gwahaniaeth.<br><br>**Deilliant 1:** Mae data'n dangos cynnydd cryf yn glir. Yn 2024/25, roedd cynnydd o 2.43 yng nghanran y disgyblion meithrin/tair blwydd oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, sy'n gynnydd cryf. Yn ystod 2024/25, derbyniodd YGG Castellau a Chanolfan Cymuned Penderyn, lle mae Cylch Meithrin Penderyn yn gweithredu, fuddsoddiad cyfunol gwerth **£2.3 miliwn** mewn darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, roedd cynnydd o 1% yn nifer y lleoliadau a gymeradwywyd i gynnig darpariaeth Dechrau'n | Bydd Cyfadran Addysg y Cyngor yn parhau i gefnogi'r Gwasanaeth Dysgu Proffesiynol a Chymorth Cwricwlwm rhanbarthol i hyrwyddo a chynyddu defnydd disgyblion o'r Gymraeg ym mhob ysgol yn RhCT.<br><br>Bydd Cyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn parhau i gynnal ymgyrchoedd hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol ar yr un pryd â'r cyfnod cyflwyno cais am le mewn ysgol, ac yn achlysurol drwy gydol y flwyddyn academaidd, i sicrhau bod hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn flaenoriaeth.<br><br>Bydd Swyddog Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor yn parhau i weithio'n agos gydag aelodau Grŵp |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Mae gan Flaenoriaeth Strategol 1 ffocws clir ar sicrhau ein bod yn cyflawni gwelliant ar draws pob un o saith deilliant y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, ac ar sicrhau bod gyda ni gynlluniau datblygu'r gweithlu effeithiol ar waith. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar bob deilliant, gan gynnwys Deilliant 7.<br><br>Mae Blaenoriaeth Strategol 2 yn canolbwyntio ar sicrhau ein bod yn ymgorffori arferion addysgu, dysgu ac asesu rhagorol sy'n sicrhau cynnydd a chanlyniadau da i bawb, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar Ddeilliant 4 (cymwysterau) a Deilliant 5 (defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destun ehangach) yn benodol.<br><br>Mae Blaenoriaeth Strategol 3 yn pwysleisio addysg gynhwysol a sicrhau bod gan ddisgyblion fynediad at y cymorth cywir ar yr adeg iawn. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar Ddeilliant 6 y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.<br><br>Bydd Blaenoriaeth Strategol 4 yn darparu cymunedau dysgu | Deg cyfrwng Cymraeg, gyda chynnydd o 58 yn mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.<br><br>**Deilliant 2:** roedd cynnydd o 1.97 yng nghanran y disgyblion Blwyddyn Un sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod 2024/25, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Agorwyd dwy ysgol cyfrwng Cymraeg newydd sbon, gyda buddsoddiad cyfunol gwerth dros **£30 miliwn.**<br><br>Dros flynyddoedd academaidd 2023-24 a 2024-25, mae cyfanswm o 32 o ddisgyblion a fanteisiodd ar gymorth gan y Gwasanaeth Trochi yn y Gymraeg yn parhau i fod mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Y flwyddyn academaidd yma, mae cyfanswm o 10 o ddisgyblion yn manteisio ar gymorth parhaus. Mae'r gwasanaeth yn datblygu'n dda a chynhaliodd Estyn arolygiad ym mis Hydref 2025 a chafwyd adborth cadarnhaol iawn. Ar y cyfan, mae cynnydd da yn cael ei wneud yn erbyn Deilliant 2.<br><br>**Deilliant 5:** Rhennir data a gwybodaeth sy'n ymwneud â rhaglen Cymraeg Campus y Siarter Iaith gyda Swyddog | Llywio'r Cynllun ac is-grwpiau i drin a thrafod gwahanol ddulliau o farchnata a hyrwyddo a rhoi'r syniadau yma ar waith.<br><br>Hyrwyddo'r opsiynau sydd ar gael i ddisgyblion sy'n dymuno trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg drwy rannu gwybodaeth ac adnoddau gydag ysgolion, a hynny trwy gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor a thrwy gymunedau lleol.<br><br>Bydd y Cyngor yn parhau i sicrhau aliniad clir â'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg Bum Mlynedd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | cynaliadwy a diogel, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar Ddeilliannau 1 a 2 yn benodol.<br><br>Mae cydweithio wrth wraidd y Cynllun Strategol Addysg newydd, ac mae hyn hefyd yn sail i'n dull o gyflawni ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg uchelgeisiol a'n model gwella ysgolion. Mae ein hysgolion cyfrwng Cymraeg eisoes yn elwa'n sylweddol o'r ceisiadau cydweithio (Blaenoriaeth Strategol 2) ac mae hyn wedi creu cyfleoedd sylweddol i ysgolion gefnogi ei gilydd, a datblygu cyfleoedd newydd i wella ysgolion.<br><br>Yn sail i'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg mae marchnata a hyrwyddo helaeth o addysg cyfrwng Cymraeg sy'n denu rhywfaint o sylw ar draws y system ac sy'n elfen bwysig o'n strategaeth Cymraeg i Bawb.<br><br>Mae hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn hanfodol i gyflawni'r targedau a nodir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae gan y Cyngor gyfres o fideos ar gael iddo sy'n canolbwyntio ar wahanol | Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor bob tymor drwy'r Gwasanaeth Dysgu Proffesiynol a Chymorth Cwricwlwm rhanbarthol.<br><br>**Deilliant 6**: Agorwyd dau Ddosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd, YGG Awel Taf, ym mis Medi 2024, sydd wedi bod yn ychwanegol at y ddarpariaeth ADY uwchradd a agorodd yn Ysgol Garth Olwg yn ystod 2022-23.<br><br>Mae datblygu a gweithredu strategaethau marchnata a hyrwyddo wedi'u targedu a fydd yn sicrhau bod manteision addysg cyfrwng Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg yn cael eu hyrwyddo i rieni a gwarcheidwaid o'r blynyddoedd cynnar cychwynnol, hyd at addysg gynradd ac uwchradd, gan symud ymlaen i addysg uwch ac addysg bellach i bob disgybl, beth bynnag yw eu hangen dysgu, yn sylfaenol er mwyn cynyddu'r ganran o ddisgyblion Blwyddyn Un yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y Cyngor yn defnyddio strategaethau marchnata a hyrwyddo cenedlaethol a | Bydd Swyddog Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor a Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor yn parhau i weithio gyda staff yn fewnol a sefydliadau partner Cymraeg i annog a hwyluso twf hirdymor i'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg.<br><br>Bydd gwaith cyflawni'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cael ei fonitro'n agos i sicrhau ein bod yn cyflawni yn erbyn yr holl Ddeilliannau. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | feysydd o daith addysg cyfrwng Cymraeg:<br>• Addysg cyfrwng Cymraeg yn ei chyfanrwydd.<br>• Addysg ADY cyfrwng Cymraeg.<br>• Trefniadau pontio cyfrwng Cymraeg.<br>• Cyfleoedd ôl-16 oed cyfrwng Cymraeg.<br>• Darpariaeth trochi yn y Gymraeg.<br><br>Mae gan Mudiad Meithrin gyfres o fideos hefyd i hyrwyddo lleoliadau gofal plant a blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg.<br><br>Mae'r adnoddau yma wedi rhoi cyfleoedd i'r Cyngor hyrwyddo'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg ledled RhCT. Mae ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol yn cael eu trefnu'n achlysurol drwy gydol y flwyddyn academaidd lle mae fideos y Cyngor a Mudiad Meithrin yn cael eu rhannu gyda negeseuon cyson yn hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg ac yn cyfeirio pobl mewn modd priodol at ragor o wybodaeth.<br><br>Mae strategaeth uchelgeisiol Cymraeg 2050 Llywodraeth | rhanbarthol, wedi'u datblygu a'u darparu gan Lywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Dysgu Proffesiynol a Chymorth Cwricwlwm rhanbarthol, Mudiad Meithrin, yn ogystal â strategaethau marchnata a hyrwyddo lleol wedi'u datblygu gan y Cyngor, i barhau i weithredu strategaethau i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg. Mae ein hymgyrchoedd marchnata yn denu diddordeb fel y dangosir mewn adroddiad craffu diweddar.<br><br>Mae'n debygol bod ein hymgyrch farchnata wedi effeithio ar bob un o'r saith deilliant. Er enghraifft, cynhaliodd y Cyngor ymgyrch fawr gyffredinol ar ein tudalennau Facebook ac Instagram corfforaethol yn ddiweddar. Hefyd, cynhaliwyd ymgyrch hysbysebu ychwanegol dros gyfnod o 10 diwrnod ym mis Awst 2025 ar yr un cyfrifon cyfryngau cymdeithasol a gynhyrchodd ddata ystadegol pellach hefyd. Hyrwyddodd yr hysbyseb brif fideo Taith Iaith gyda dolenni i'r dudalen we Addysg Cyfrwng Cymraeg ar wefan y Cyngor, gyda 893 o gliciau i fynd yn uniongyrchol i'r wefan a chafodd yr hysbyseb gyffredinol ei gweld 31,933 o weithiau. Ochr yn ochr | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Cymru yn galw am newidiadau pellgyrhaeddol a gwthio ffiniau i gynyddu'r niferoedd sy'n dysgu ac yn defnyddio'r Gymraeg. Er mwyn cyrraedd targedau Cymraeg 2050, mae angen i bob awdurdod lleol drawsnewid sut mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu i bob disgybl. Bydd y Cyngor yn parhau i hyrwyddo'r gefnogaeth sydd ar gael trwy Garfan Trochi yn y Gymraeg y Cyngor i unrhyw rieni/gwarcheidwaid sy'n dymuno trosglwyddo eu plentyn/plant o addysg cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd rhieni/gwarcheidwaid a disgyblion sy'n penderfynu trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg yn cael eu cefnogi'n llawn gan y Garfan Trochi yn y Gymraeg. Bydd hyn yn cefnogi'r Cyngor i gynyddu niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol yn unol â'r targedau sydd wedi'u hamlinellu yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.<br><br>Mae Strategaeth Pum Mlynedd Hybu'r Gymraeg y Cyngor (2022 – 2027), ynghyd â'i gynllun gweithredu atodol, wedi'u | â'r ymgyrch hysbysebu yma, cynhaliwyd ymgyrch ehangach rhwng 10 Awst a 31 Hydref 2025 i hyrwyddo pob agwedd ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, gan gynnwys Mudiad Meithrin, Gwasanaeth Trochi yn y Gymraeg, y cyfnod pontio o leoliadau cyfrwng Saesneg i rai cyfrwng Cymraeg, Dechrau'n Deg a'r prif fideo Taith Iaith. Cynhyrchodd yr ymgyrch yma 90 o gliciau ar ddolenni i fynd i bob tudalen we, gyda hysbysebion yn cael eu gweld gan 38.1 mil o bobl wahanol.<br><br>Mae strategaeth Hybu'r Gymraeg yn amlinellu ymrwymiad y Cyngor i weithio tuag at weledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu'r defnydd o'r iaith yn y gweithle, a hynny trwy wasanaethau'r Cyngor a thrwy'r gymuned. Mae'r ymrwymiad yma i hybu'r Gymraeg, cynyddu nifer y disgyblion Cymraeg a gwella sgiliau Cymraeg staff a disgyblion ledled ysgolion Rhondda Cynon Taf yn cael ei ailddatgan yng Nghynllun Strategol Addysg y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant ar | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | hystyried er mwyn annog a hwyluso twf hirdymor i'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg yn RhCT.<br><br>Mae Gwasanaethau Cymraeg, Gwasanaethau Ieuenctid, Gwasanaethau Hamdden, Gwasanaethau Celfyddydau a Diwylliant a Gwasanaethau Cerdd Cyngor Rhondda Cynon Taf i gyd yn gweithio mewn modd rhagweithiol tuag at ddatblygiad parhaus cyfleoedd i ddisgyblion a'r gymuned ehangach ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys, ond dydyn nhw ddim yn gyfyngedig i'r canlynol:<br><br>Gwasanaethau Cymraeg:<br>• Wedi datblygu deunyddiau i'w darparu i staff arlwyo mewn ysgolion i'w cynorthwyo â'u sgiliau Cymraeg a'r defnydd o Gymraeg achlysurol yn yr ysgolion.<br>• Archwilio dichonolrwydd gosod rhaglenni digidol dysgu/cefnogi cyfrwng Cymraeg ar ddyfeisiau pob aelod o staff i gefnogi eu sgiliau a'u datblygiad ieithyddol. | gyfer 2026-2030.<br><br>Mae cynrychiolwyr o'r holl feysydd gwasanaeth rydyn ni wedi cyfeirio atyn nhw (Cymraeg, Ieuenctid, Hamdden, Cerdd, Celfyddydau a Diwylliant) yn aelodau o is-grŵp Deilliant 5 Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor, sy'n canolbwyntio'n benodol ar greu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol, ond hefyd yn ehangu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau ar draws pob maes gwasanaeth ac yn y gymuned ehangach. Caiff gwybodaeth ei rhannu gyda Swyddog Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor ac aelodau'r is-grŵp yn ystod cyfarfodydd chwarterol.<br><br>Dosberthir llyfrynnau i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i'w dosbarthu gan Ymwelwyr Iechyd yn ystod ymweliadau â rhieni a gwarcheidwaid newydd. Mae Gwasanaethau Cofrestru Cynghorau Bwrdeistref Sirol RhCT a Phen-y-bont ar Ogwr wedi derbyn copïau o'r llyfrynnau i'w dosbarthu i unrhyw deuluoedd | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Gwasanaethau Ieuenctid:<br>• Cynnal teithiau i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg i roi cyfleoedd iddyn nhw i ddefnyddio’r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau.<br>• Gweithio mewn partneriaeth ag Urdd Gobaith Cymru a Menter Iaith RhCT i gynnal Fforymau Ieuenctid Cymraeg ym mhob ysgol uwchradd/pob oed cyfrwng Cymraeg.<br><br>Gwasanaethau Hamdden:<br>• Gweithio gydag Urdd Gobaith Cymru i gyflwyno gweithgareddau chwaraeon ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg. Ymchwilio i ffyrdd o ymgorffori'r un ddarpariaeth mewn ysgolion cyfrwng Saesneg trwy ddefnyddio model dwyieithog.<br>• Gweithio'n agos gyda'r clwb chwaraeon cyfrwng Cymraeg cyntaf yn Rhondda Cynon Taf, wedi'i leoli yn Aberdâr.<br><br>Gwasanaethau Celfyddydau a Diwylliant:<br>• Cydweithio â Gwasanaethau Ieuenctid ar raglen o ddarpariaeth ledled | RhCT sy'n cofrestru genedigaethau yn eu swyddfeydd. Mae Swyddog Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Arweinydd Trochi yn y Gymraeg y Cyngor yn mynd i achlysuron wyneb yn wyneb i ddosbarthu’r llyfrynnau, ynghyd ag adnoddau hyrwyddo eraill, i’r cyhoedd.<br><br>Mae'r ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi sicrhau tri chais cydweithio yn rhan o'r model gwella ysgolion newydd. Mae hyn yn cynnwys model gwella ysgolion rhwng ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg (Cyfleoedd +), trefniant cydweithio fertigol sy'n ymwneud â datblygu sgiliau darllen a rhifedd ar draws clwstwr Ysgol Rhydywaun, a threfniant cydweithio llorweddol rhwng pedair ysgol (gan gynnwys un ysgol y tu allan i'r sir) sy'n ymwneud â datblygu dulliau tuag at rifedd. Bydd hyn yn sicrhau model cryfach o rannu arbenigedd ar draws y system a chefnogaeth rhwng ysgolion.<br><br>Mae'n amlwg bod angen adeiladu ar drefniadau cydweithio rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn y dyfodol er mwyn paratoi ar gyfer Deddf y Gymraeg | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | lleoliadau diwylliannol a chymunedol i annog defnydd o’r Gymraeg ac ymgorffori’r Gymraeg mewn achlysuron yn y gymuned.<br><br>Mae'r Cyngor yn hyrwyddo manteision bod yn ddwyieithog a manteision addysg cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol drwy ddosbarthu'r llyfryn 'Bod yn Ddwyieithog'. Mae modd dod o hyd i fersiwn ddigidol o'r llyfryn yma o dan adran addysg cyfrwng Cymraeg ar wefan y Cyngor, ac mae llawer o ysgolion wedi derbyn copïau caled i'w dosbarthu i ddarpar deuluoedd. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio i sicrhau bod manteision addysg cyfrwng Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg yn cael eu hyrwyddo i rieni/gwarcheidwaid a dangos nad yw hi byth yn rhy hwyr i dderbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny trwy ddefnyddio cymorth trochi yn y Gymraeg i gefnogi'r disgyblion hynny sy'n hwyrddyfodiaid i'r iaith ac addysg cyfrwng Cymraeg. | ac Addysg (Cymru) 2025 newydd, ac mae hyn yn cael blaenoriaeth yn y Cynllun Strategol Addysg newydd. Mae angen gwaith pellach hefyd i sicrhau bod cyfraddau cadw mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg ôl-16 oed yn gwella, er bod y rhain yn uwch na'r sector cyfrwng Saesneg ar hyn o bryd. Bydd gweithio mewn partneriaeth â Choleg y Cymoedd yn parhau i sicrhau bod disgyblion sy'n trosglwyddo i'r coleg yn elwa o barhau ag astudiaethau cyfrwng Cymraeg lle bo modd, yn erbyn cefndir o heriau recriwtio. | |

**<u>Cam 2 – Asesu Effaith</u>**
**<u>Cam 2 – Asesu Effaith</u>**
**A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?**

| | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu niwtral ar y Gymraeg. | Pa dystiolaeth sydd gennych chi i ategu'r farn yma? | Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|
| **Cydymffurfio â safonau statudol y Cyngor ar gyfer y Gymraeg**.<br><br>e.e., cynyddu neu leihau gallu'r Cyngor i gyflawni gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Ystyriwch hawliau siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r Cyngor ac i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. | Cadarnhaol. | Bydd y Cynllun Strategol yn cydymffurfio â safonau statudol y Cyngor ar gyfer y Gymraeg. Bydd y Cynllun ar gael yn Gymraeg a Saesneg a bydd ymgynghoriad eang yn cael ei gynnal arno, gyda rhanddeiliaid yn cael cwestiynau allweddol penodol am yr effaith ar y Gymraeg.<br><br>Bydd y Cyngor yn sicrhau bod y Cynllun yn ystyried yr holl ddeddfwriaeth, strategaethau, polisïau a chynlluniau gweithredu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol cyfredol a pherthnasol sy'n effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg.<br><br>Mae pob rhanddeiliad sy'n ymwneud â'r cynnig yma'n effro i'r ffaith y gellir gwneud unrhyw ohebiaeth mewn perthynas â'r cynnig yma/y Cynllun drwy gyfrwng y Gymraeg os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny, a bod unrhyw ymatebion dilynol | Bydd yr ymgynghoriad perthnasol a gofynnol yn cael ei gynnal yn ddwyieithog a bydd gohebiaeth gyhoeddus mewn perthynas â'r cynnig yn cael ei pharatoi'n ddwyieithog, gyda'r Gymraeg i'w gweld yn gyntaf.<br><br>Bydd cynnydd y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant o ran cyflawni cynlluniau cyflawni gwasanaethau blynyddol yn ffocws gwaith monitro corfforaethol chwarterol. Bydd y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant hefyd yn cynnal hunanwerthusiad blynyddol i lywio cynlluniau cyflawni gweithredol ac i sicrhau ein bod yn adolygu gallu ein gweithlu yn rheolaidd i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg (Blaenoriaeth Strategol 1). | Sicrhau bod pob swyddog sy'n ymwneud â'r cynnig yma/y Cynllun yn effro i Safonau Statudol y Cyngor ar gyfer y Gymraeg a sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau yma.<br><br>Mae'r holl ddeddfwriaeth, strategaethau, polisïau a chynlluniau gweithredu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol cyfredol wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu'r Cynllun Strategol drafft ar gyfer 2026-2030.<br><br>Mae Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor yn aml yn cynnig sesiynau ar wahanol bynciau sy'n ymwneud â chydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Mae'r sesiynau yma'n cael eu hyrwyddo i bob aelod o staff yn fewnol ac anogir pawb i fynychu'r sesiynau i gryfhau eu dealltwriaeth a'u hymwybyddiaeth o gydymffurfio â'r safonau yma. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | yn cael eu gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | | |
| **Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.** | Cadarnhaol. | Wrth edrych tua'r dyfodol, mae'r Cyngor am adeiladu ar yr hyn y mae wedi'i gyflawni hyd yma a sicrhau bod pob tref a chymuned yn y Fwrdeistref Sirol yn lle gwych i fyw, gweithio a chwarae. Uchelgais y Cyngor yw sicrhau bod pawb mor iach, annibynnol a llewyrchus â phosibl trwy gydol eu bywydau. Mae agor y drws i addysg dda, datblygu sgiliau a chynnig cyfleoedd cyflogaeth o safon i gyd yn feysydd â blaenoriaeth.<br><br>Wrth i'r Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant edrych tua'r dyfodol, mae ein gweledigaeth: 'Cydweithio'n effeithiol i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a chynhwysiant i bawb' yn ganolog ac yn cynnwys peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Bydd y Cyngor hefyd yn cyflawni'r weledigaeth yma trwy gefnogi plant i gael y dechrau gorau mewn bywyd a sicrhau eu bod yn barod i ddysgu trwy system y blynyddoedd cynnar well, cefnogi teuluoedd trwy'r cynnig gofal plant ac hefyd trwy fuddsoddi mewn cyfleusterau | Mae'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, sydd wedi cyflawni llawer o fuddsoddiadau mewn adeiladau ysgol newydd/wedi'u hailwampio, yn cynnwys ystod eang o ysgolion, cyfrwng Cymraeg a Saesneg, mewn gwahanol rannau o'r Fwrdeistref Sirol i ddarparu cyfleusterau gwell a mynediad teg at addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg dda. Ers 2020, mae'r prosiectau a restrir isod wedi cael eu cyflawni, neu byddan nhw'n cael eu cyflawni, sy'n dangos yr effaith gadarnhaol ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran addysg:<br><br>*Ardal Cwm Rhondda*<br>• Yn ystod 2024, derbyniodd Ysgol Gynradd Gymraeg Ynyswen a Chylch Meithrin Nant Dyrys, sydd wedi'i leoli drws nesaf i'r ysgol, fuddsoddiad i ddarparu ystafell ddosbarth a man addysgu awyr agored, ardal chwarae fach, man gwyrdd, ardal gemau aml-ddefnydd a thrac cerdded/rhedeg. | Yn rhan o'r hunanwerthusiad gwasanaeth arferol a gynhelir yn y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, bydd gwerthusiad o effaith y strategaeth ar y Gymraeg a darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei gynnal. Bydd effaith datblygiadau’r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a Chymunedau Dysgu Cynaliadwy hefyd yn cael ei gwerthuso a’i thrafod yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y Cabinet a’r Pwyllgor Craffu.<br><br>Bydd y Cyngor yn parhau i fuddsoddi mewn darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i sicrhau bod gan blant yn Rhondda Cynon Taf fynediad at addysg cyfrwng Cymraeg mewn adeiladau sy'n addas ar gyfer dysgu'r 21ain Ganrif.<br><br>Os caiff ei gymeradwyo, bydd y Cynllun Strategol Addysg ar gyfer 2026-30 yn fframwaith ar gyfer holl Gynlluniau Cyfadran a Gwasanaeth tan 2030, a bydd yn cael ei werthuso yn erbyn: meini prawf llwyddiant clir a dangosyddion cyflawniad; rheoli cyflawniad ac adrodd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | newydd a gwell i ysgolion a chymunedau, a hynny trwy Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.<br><br>Bydd y Cyngor yn parhau i weithio ar ddatblygu a chyflawni prosiectau sydd wedi'u hariannu trwy Gynllun Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant a Chynllun Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru. Mae'r prosiectau yma'n cefnogi gwaith cyfalaf sy'n hwyluso twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg, gyda chyllid wedi'i anelu'n benodol at ddatblygu neu ehangu lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg wedi'u cydleoli ar safleoedd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. | • Ym mis Ionawr 2025, darparwyd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn y Forwyn. Mae gan yr ysgol gyfleusterau newydd yr 21 ain Ganrif, Cylch Meithrin â 30 o leoedd, Ardal Gemau Aml-ddefnydd, maes chwaraeon â gwair, mannau chwarae allanol, maes parcio i staff, a maes parcio ar gyfer gollwng/casglu disgyblion – cyfleusterau o’r radd flaenaf ydyn nhw na fyddai modd eu cynnig ar hen safle'r ysgol.<br><br>• Yn dilyn llunio adroddiadau dichonoldeb helaeth, cafodd y penderfyniad ei wneud i adeiladu ysgol newydd sbon ar safle ysgol bresennol Ysgol Gyfun Cwm Rhondda. Mae contractwr wedi cael ei benodi ac mae'r broses ddylunio yn mynd rhagddi. Mae disgwyl i'r gwaith ddechrau ar y safle yn ystod haf 2026.<br><br>*Ardal Cwm Cynon*<br>• Ym mis Medi 2021, newidiodd cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn o ysgol gynradd ddwy iaith i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. | corfforaethol; gan gynnwys monitro rheoli risg. Bydd Grŵp Llywio’r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn craffu’n rheolaidd ar gyflawniad pob un o saith deilliant y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, ac yntau'n flaenoriaeth strategol pwysig, gan gynnwys yr holl bartneriaid strategol, a bydd hyn hefyd yn digwydd yng nghyfarfodydd yr is-grŵp bob chwe mis. Bydd y Pwyllgor Craffu hefyd yn craffu ar ein cyflawniad bob blwyddyn, a hynny er mwyn sicrhau nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | • Yn ystod 2022, adeiladwyd estyniad i Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdar, gan ddarparu cyfleusterau ychwanegol a lle i 72 o ddisgyblion ychwanegol yn yr ysgol.<br><br>• Ym mis Medi 2022, adeiladwyd estyniad i gynyddu capasiti Ysgol Gyfun Rhydywaun. Roedd hyn yn cynnwys bloc newydd sbon ar safle'r ysgol, yn ogystal â gwella'r cyfleusterau presennol yn yr ysgol. Creodd y prosiect yma le i 187 o ddisgyblion ychwanegol yn yr ysgol.<br><br>• Yn ystod tymor y Gwanwyn 2025, adeiladwyd estyniad unllawr i gefn Canolfan Cymuned Penderyn, lle mae Cylch Meithrin Penderyn yn gweithredu, ynghyd â chwblhau gwaith ailfodelu ac ailwampio mewnol. Rhoddodd hyn le pwrpasol i Gylch Meithrin Penderyn, gan gynnwys toiledau i'r plant, ardal paratoi bwyd a man chwarae pob tywydd allanol diogel. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | *Ardal Taf-elái (dalgylch Ysgol Garth Olwg)*<br>• O fis Medi 2023, agorodd darpariaeth dosbarth cynnal dysgu cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion oedran ysgol uwchradd ag anghenion cymhleth yn Ysgol Garth Olwg. Mae'r ddarpariaeth yma'n parhau i fynd o nerth i nerth. Ym mis Medi 2025, mae pump o ddisgyblion yn manteisio ar y ddarpariaeth yma.<br><br>• Ym mis Medi 2023, darparwyd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar safle Ysgol Gynradd Heol y Celyn. Trodd yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd, sef YGG Awel Taf, yn ysgol cyfrwng Cymraeg yn unig o fis Medi 2024, gan groesawu disgyblion o ffrwd addysg cyfrwng Cymraeg bresennol Ysgol Gynradd Heol y Celyn a disgyblion o YGG Pont Siôn Norton yn dilyn ei chau ym mis Gorffennaf 2024.<br><br>• O fis Medi 2024, pan groesawodd YGG Awel Taf newydd ddisgyblion, agorodd dau ddosbarth cynnal dysgu cyfrwng Cymraeg newydd yn | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | YGG Awel Taf hefyd. Dyma'r ddarpariaeth gyntaf o'i math ar lefel ysgol gynradd yn Rhondda Cynon Taf ac mae'n gyflawniad allweddol o ran gwella'r ddarpariaeth lleoliadau ADY arbenigol cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn y Fwrdeistref Sirol ar gyfer disgyblion ag ADY sylweddol. Ym mis Medi 2025, mae 13 o ddisgyblion yn defnyddio'r ddarpariaeth yma.<br><br>• Yn ystod tymor yr Hydref 2024, darparwyd estyniad dosbarth ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau. O ganlyniad i hyn, roedd modd i'r ysgol ildio ei hystafell ddosbarth bresennol ar gyfer y dosbarth meithrin i ddod yn gyfleuster gofal plant pwrpasol, heb effeithio ar ffigurau capasiti disgyblion yr ysgol.<br><br>*Ardal Taf-elái (dalgylch Ysgol Llanhari)*<br>• Mae ymgynghoriad wedi'i gynnal a rhoddwyd cymeradwyaeth i adeiladu ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn ardal Llanilid yn y Fwrdeistref Sirol (wrth ymyl Ysgol Gynradd Dolau). Mae'r | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | datblygwr tai, Persimmon, wrthi'n clirio'r safle, fel bod modd i'r cam adeiladu fynd rhagddo.<br><br>• Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i adeiladu ysgol cyfrwng Cymraeg newydd i blant 3-19 oed ar safle presennol Ysgol Llanhari, gan ddarparu cyfleusterau gwell a modern i ddisgyblion oedran ysgol gynradd ac uwchradd yn yr ardal yma o'r Fwrdeistref Sirol, ac mae contractwr wedi'i benodi i ddatblygu'r prosiect yma. | |

**<u>Cam 3 – Gwella'r cynnig</u>**

Ar ôl rhestru camau gweithredu yn adran 2 a allai liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol – nodwch isod pa rai y byddwch chi'n eu cynnwys yn y cynnig polisi a phwy fydd yn gyfrifol amdanyn nhw.

Ystyriwch hefyd a yw'r cynnig yn angenrheidiol? A fyddai modd bodloni'r galw heb unrhyw ddatblygiadau newydd? Allai darpariaeth arall gael ei defnyddio? Ble dylai'r ddarpariaeth fod?

| Beth ydych chi'n mynd i'w wneud? | Pryd ydych chi'n mynd i'w wneud? | Pwy sy'n gyfrifol? |
|---|---|---|
| Os caiff y Cynllun Strategol ei gymeradwyo, bydd yn fframwaith ar gyfer holl Gynlluniau Cyflawni Cyfadran a Gwasanaethau yn y dyfodol. | Yn dilyn ymgynghori a chyhoeddi'r cynllun drafft terfynol, bydd Cynlluniau'r Gyfadran a Gwasanaethau yn cael eu newid i gyfeirio'n benodol at y blaenoriaethau strategol newydd, a dangosyddion cyflawniad a meini prawf llwyddiant. | Bydd cynlluniau cyflawni'r Gyfadran a Gwasanaethau yn cael eu monitro, eu gwerthuso a'u hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus. Bydd meini prawf llwyddiant clir a dangosyddion cyflawniad yn cael eu defnyddio i |

| | | |
|---|---|---|
| | | werthuso cynnydd dros amser. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy hunanwerthuso gwasanaethau, prosesau rheoli cyflawniad unigol a gwasanaethau rheolaidd, ac adrodd corfforaethol a monitro. |
| Yn rhan o'r hunanwerthusiad gwasanaeth arferol a gynhelir yn y Gyfadran Addysg, bydd gwerthusiad o effaith y strategaeth ar y Gymraeg a darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei gynnal. Bydd effaith datblygiadau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a Chymunedau Dysgu Cynaliadwy hefyd yn cael ei gwerthuso a'i thrafod yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu. | Mae hunanwerthusiad gwasanaeth yn parhau yn erbyn y Cynllun Strategol presennol. | Bydd uwch reolwyr y Gyfadran Addysg yn monitro cyflawniad yn erbyn Cynllun y Gyfadran. Bydd pob Pennaeth Gwasanaeth yn sicrhau bod pob Cynllun Gwasanaeth yn cael ei gyflawni a'i fonitro yn erbyn ein meini prawf llwyddiant a'n dangosyddion cyflawniad. |
| Bydd Cyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn parhau i gyflawni'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a'i ddeilliannau mewn cydweithrediad â phartneriaid mewnol, sefydliadau Cymraeg a Llywodraeth Cymru. | Yn parhau. Bydd hyn yn ymdrech gydweithredol barhaus rhwng yr holl randdeiliaid. | Bydd Swyddog y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a phartneriaid yn gyfrifol am gyflawni'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn effeithiol.<br>Mae gan Gyfarwyddwr y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant gyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus, a bydd pob uwch reolwr ym maes Addysg yn gyfrifol am sicrhau bod pob un o'r saith deilliant yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus. |

| | | |
|---|---|---|
| Bydd Cyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn parhau i weithio gyda'r Gwasanaeth Dysgu Proffesiynol a Chymorth Cwricwlwm rhanbarthol, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac ysgolion yn RhCT i hyrwyddo'r ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol sydd ar gael i unrhyw staff ysgol. | Yn parhau. | Swyddog y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, y Gwasanaeth Dysgu Proffesiynol a Chymorth Cwricwlwm rhanbarthol ac ysgolion RhCT.<br><br>Bydd cyflawniad y gwasanaeth rhanbarthol yn cael ei werthuso drwy brosesau llywodraethu sefydledig sy'n cynnwys Cyfarwyddwyr Addysg o'r rhanbarth ac Arweinwyr Strategol y gwasanaeth rhanbarthol. |
| Bydd y Gwasanaeth Dysgu Proffesiynol a Chymorth Cwricwlwm rhanbarthol yn parhau i gefnogi pob ysgol i hyrwyddo a chynyddu defnydd disgyblion o'r Gymraeg mewn ysgolion/lleoliadau cynradd, uwchradd, pob oed ac arbennig drwy ymgysylltu'n barhaus â Fframwaith Cymraeg Campus y Siarter Iaith. | Yn parhau. | Y Gwasanaeth Dysgu Proffesiynol a Chymorth Cwricwlwm rhanbarthol. |
| Bydd Swyddog Arweiniol Trochi yn y Gymraeg y Cyngor yn parhau i fonitro a gwerthuso'r ddarpariaeth trochi yn y Gymraeg a chanlyniadau disgyblion er mwyn sicrhau bod y strwythur a'r rhaglen yn addas ar gyfer pob disgybl unigol. | Yn parhau. | Arweinydd Trochi yn y Gymraeg. |
| Bydd Swyddog Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor yn parhau i weithio'n agos gydag aelodau Grŵp Llywio'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac is-grwpiau i drin a thrafod gwahanol ddulliau o farchnata a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg, ac i roi'r dulliau yma ar waith, gan gynnwys trochi yn y Gymraeg yn RhCT. | Yn parhau. Yn achlysurol drwy gydol y flwyddyn academaidd. | Swyddog y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. |
| Bydd y Cyngor yn parhau i fuddsoddi mewn darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i sicrhau bod gan blant yn Rhondda Cynon Taf fynediad at addysg cyfrwng Cymraeg mewn adeiladau sy'n addas ar gyfer dysgu'r 21ain Ganrif. | Yn parhau. | Carfan Ysgolion yr 21ain Ganrif (Cyfadran Addysg). |

| Os yw ffyrdd o leihau'r effaith wedi cael eu nodi ond dydyn nhw ddim yn bosibl eu rhoi ar waith, esboniwch pam. Rhowch ddigon o fanylion am ddata neu ymchwil sydd wedi arwain at eich rhesymu. | |
|---|---|
| **Beth gafodd ei nodi?** | **Pam nad yw'n bosibl?** |
| Dd/B. | Dd/B. |

**<u>Cam 4 – Adolygu</u>**
**<u>Cam 4 – Adolygu</u>**

Ar gyfer pob cynnig polisi, p’un a yw’n Benderfyniad Allweddol Arwyddocaol ai peidio, mae’n ofynnol ichi anfon yr asesiad yma ymlaen at yr Uned Gwasanaethau Cymraeg – SwyddogIaith@rctcbc.gov.uk a'r garfan Ymgynghori ac Ymgysylltu – ymgynghori@rctcbc.gov.uk yn y lle cyntaf i gael rhywfaint o arweiniad ac adborth cychwynnol.

Yn rhan o'r Broses Asesu Effaith ar y Gymraeg, Cydraddoldeb a Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol, dylai pob cynnig sy'n diwallu'r diffiniad o Benderfyniad Allweddol Arwyddocaol gael eu cyflwyno gerbron y Panel Adolygu Swyddogion. Mae swyddogion o bob rhan o Wasanaethau'r Cyngor yn rhan o'r panel yma ac mae'n gweithredu fel ffrind beirniadol cyn i'ch adroddiad gael ei gwblhau a'i gyhoeddi ar gyfer cymeradwyaeth gan y Cabinet/Uwch Reolwyr y Cyngor.

Os yw'r cynnig yma'n cael ei ystyried yn Benderfyniad Allweddol Strategol, anfonwch eich asesiad effaith sydd wedi'i gwblhau (Camau 1>6), ynghyd â chynnig/adroddiad polisi a'r adroddiad ymgynghori i'r cyfeiriad e-bost <u>BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk</u> fel bod modd trefnu Panel Adolygu i drafod eich cynnig. <u>Darllenwch ein dogfen ganllaw</u> i gael rhagor o wybodaeth am beth yw Penderfyniad Allweddol Arwyddocaol.

Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon fel y gallwn ddangos sut rydyn ni wedi ystyried ac ymgorffori ystyriaethau cynaliadwy o ran y Gymraeg lle bynnag y bo modd. Gofalwch eich bod chi'n diweddaru'r adrannau perthnasol isod ar y cyd â'r adrannau perthnasol.

| **Sylwadau'r Uned Gwasanaethau Cymraeg** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw welliannau a wnaed yn dilyn adborth gan yr Uned Gwasanaethau Cymraeg.** |
|---|---|---|
| Diolch yn fawr am yr Asesiad Effaith ar y Gymraeg manwl yma sy'n nodi'r gwaith da sydd eisoes yn cael ei wneud gan y gwasanaeth i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r data sydd wedi'i gynnwys yn darparu tystiolaeth allweddol o'r effaith gadarnhaol y mae'r gwaith presennol yn ei chael, ac mae cysylltiad clir â nodau'r cynllun newydd i greu system fwy cyfartal, a mynediad tecach at wasanaethau rhagorol. Fodd bynnag, mae lle i gryfhau'r ffordd y mae'r asesiad yn dangos yr effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y bydd y cynnig penodol yma yn eu cael ar y defnydd o'r Gymraeg ym mhob lleoliad, cyfleoedd i ddisgyblion a staff ddysgu Cymraeg, gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a defnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol ac yn y byd ehangach – efallai drwy ganolbwyntio | 12/11/25 | Cryfhawyd yr Asesiad Effaith ar y Gymraeg i bwysleisio effaith uniongyrchol y Cynllun Strategol, yn enwedig mewn perthynas â:-<br><br>ADY<br><br>Cyfleoedd cydweithio (e.e. ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gweithio gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill neu |

| | | |
|---|---|---|
| ar y manteision a/neu'r peryglon posibl o gydweithio rhwng ysgolion a sefydliadau y gallwn ni daflu goleuni ar rai effeithiau posibl a gweithio i'w gwella neu eu lliniaru yn ôl yr angen. | | ysgolion cyfrwng Saesneg i rannu arferion da a chyfleoedd dysgu).<br><br>Ychwanegwyd cyfeiriadau at y bartneriaeth Cymraeg i Bawb sy'n nodi'r cydweithio cadarnhaol rhwng gwahanol ysgolion cyfrwng Cymraeg.<br><br>Ychwanegwyd rhagor o enghreifftiau o ran beth allai'r effeithiau fod. |
| **Sylwadau Swyddogion y Panel Adolygu** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw addasiadau a wnaed yn dilyn ystyriaethau Swyddogion y Panel Adolygu** |
| Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn cyfeirio at niferoedd disgyblion yn lleihau oherwydd y gyfradd genedigaethau, ond mae angen dyfynnu ffigurau poblogaeth. | 12/11/25 | Data'r gyfradd genedigaethau wedi'i gynnwys. |
| **Sylwadau'r Adran Ymgynghori** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw addasiadau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad** |
| | | |

| |
|---|
| **<u>Cam 5 – Monitro, Gwerthuso ac Adolygu</u>**<br><br>Sut byddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig, a gyda phwy? |
| Bydd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant yn adolygu'r Cynllun Strategol ar gyfer 2026-2030 yn barhaus trwy gydol y cynllun pedair blynedd trwy hunanwerthuso a chasglu adborth gan randdeiliaid, gan fonitro cynnydd dros y cyfnod o bedair blynedd. Bydd y Cynllun Strategol hefyd yn destun adolygiad blynyddol yn rhan o hunanwerthusiad gwasanaethau blynyddol y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant.<br><br>Bydd y Cynllun Strategol ar gyfer 2026-2030 yn rhoi blaenoriaeth i'r meysydd hynny y profwyd eu bod yn effeithiol wrth gyflawni ein gweledigaeth a'r meysydd a nodwyd o hunanwerthuso cadarn ac adborth gan randdeiliaid. Bydd deilliannau'r adolygiadau blynyddol o'n Cynllun Strategol ar gyfer 2026-2030 yn cael eu defnyddio i ddatblygu strategaethau yn y dyfodol a bydd yn rhoi blaenoriaeth i'r meysydd hynny y profwyd eu bod yn effeithiol yn ystod y Cynllun Strategol yma. |

**Cam 6 – Crynodeb o'r Effeithiau gan y Cynnig**

Darparwch grynodeb o'r asesiad effaith isod. Yn y crynodeb, rhaid cynnwys rhai o'r prif effeithiau cadarnhaol a negyddol ynghyd â throsolwg o'r camau gweithredu ers yr asesiad effaith a gafodd eu cymryd i gyfrannu at effeithiau mwy cadarnhaol yn well. Dylai'r crynodeb yma gael ei gynnwys yn adran Ystyriaethau o'r Gymraeg yn nhempled adroddiad Uwch Reolwyr y Cyngor/y Cabinet. Dydy hi ddim yn addas ysgrifennu 'gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad x' yn unig yng nghorff yr adroddiad. Rhaid i'r asesiad effaith gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad.

I grynhoi, mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yma yn nodi effaith gadarnhaol yn unig ar y Gymraeg. Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifainc o bob oed. Bydd y Cynllun Strategol ar gyfer 2026-2030 yn darparu strategaeth glir a chydlynol, gan sicrhau bod ein disgyblion yn cael y dechrau gorau mewn bywyd ac yn cael mynediad at y cymorth cywir ar yr adeg iawn fel eu bod nhw'n dod yn ddysgwyr gydol oes llwyddiannus trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Wrth i'r Gyfadran Addysg edrych tua'r dyfodol, ei gweledigaeth ar gyfer addysg yn Rhondda Cynon Taf yw: 'Cydweithio'n effeithiol i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a chynhwysiant i bawb', gyda ffocws penodol ar gau'r bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi a'r rhai nad ydyn nhw'n byw mewn tlodi, a sicrhau tegwch a chynhwysiant i bawb ym mhob iaith.

Nod y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant yw parhau i ymgorffori arferion ac agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg trwy gynllunio pwrpasol mewn ysgolion a hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith disgyblion yn yr ysgol a thu hwnt. Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, ar draws y cwricwlwm ac mewn cyd-destunau ehangach mewn ysgolion, i sicrhau bod disgyblion ar lwybr parhaus o ran eu dilyniant ieithyddol a bod hyn yn eu helpu wrth bontio rhwng Cyfnodau Allweddol. Mae hyn yn cynnig cyfle i bob disgybl ddod yn gwbl ddwyieithog ac mae'n alinio â Chwricwlwm i Gymru 2022.

Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn flaenoriaeth allweddol ac yn strategaeth sy'n sail i ddull y Cyngor o ran cyflawni'r targed uchelgeisiol a osodwyd i sicrhau cynnydd o 10% yng nghanran y disgyblion Blwyddyn Un sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg dros gyfnod o 10 mlynedd. Mae'r targed o gynyddu'r ganran o ddisgyblion Blwyddyn Un sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn gofyn am sawl dull gwahanol. Mae'r Cyngor yn parhau i feithrin perthnasoedd gwaith adeiladol gyda'r holl grwpiau a sefydliadau perthnasol a all helpu i gyrraedd y nod, a chynnal y perthnasoedd hynny. Mae sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg ar gael i bawb yn y lleoliad cywir waeth pa anghenion dysgu sydd gyda nhw, o ddechrau'r blynyddoedd cynnar, trwy'r ysgol gynradd ac uwchradd, ac ymlaen at addysg bellach ac addysg uwch, yn allweddol wrth gyflawni'r nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd trochi yn y Gymraeg i ddisgyblion sy'n dymuno pontio o addysg cyfrwng Saesneg i'r Gymraeg. Mae'r ddarpariaeth yn parhau i ddatblygu ac mae'r galw am y gwasanaeth yn parhau i dyfu. Os bydd y galw am y gwasanaeth yn fwy na'r capasiti, bydd y Cyngor yn ystyried cynigion datblygu yn y dyfodol i sicrhau y gall y ddarpariaeth yma barhau i ffynnu yn RhCT. Bydd angen i gynlluniau yn y dyfodol i ddatblygu'r math yma o ddarpariaeth ar lefel ysgolion uwchradd yn RhCT ystyried cyfyngiadau daearyddol y Fwrdeistref Sirol a nodi'r ffordd fwyaf effeithiol o gynnig cefnogaeth ar y lefel yma.

Wrth gyfrannu at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, ac yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor, mae'n hollbwysig sicrhau gweithlu digon o faint ac â gallu digonol mewn ysgolion. Rhaid i ni weithio ar lefel leol, rhanbarthol a

chenedlaethol i sicrhau ein bod ni'n creu gweithlu ysgolion â sgiliau ieithyddol cadarn, sy'n gallu ysbrydoli ac ysgogi'r sawl sy'n dysgu Cymraeg a disgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Mae strategaeth uchelgeisiol Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yn galw am newidiadau pellgyrhaeddol a gwthio ffiniau i gynyddu'r niferoedd sy'n dysgu ac yn defnyddio'r Gymraeg. Er mwyn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, mae angen i bob awdurdod lleol drawsnewid sut mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu i bob disgybl a sut mae'r iaith yn cael ei defnyddio mewn cymunedau lleol. Bydd Cyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn parhau i sicrhau bod y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyd-fynd yn glir â Strategaeth Hybu'r Gymraeg Bum Mlynedd y Cyngor (2022-2027) er mwyn annog a hwyluso twf hirdymor i'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf.

I grynhoi, bydd y cynnig felly'n cynorthwyo i gyflawni'r targedau a amlinellir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (2022 i 2032) Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a bydd yn cefnogi'r nod o darged Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

Wrth ddatblygu'r Cynllun yma, mae'r holl ddeddfwriaeth, strategaethau, polisïau a chynlluniau gweithredu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol cyfredol wedi'u hystyried er mwyn annog a hwyluso Cynllun Strategol sy'n addas i'r diben.

<table>
<tr><td colspan="4"><u>Cam 7 – Cymeradwyo</u></td></tr>
<tr><td>Enw'r Swyddog sy'n cwblhau'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg</td><td>Nicola Goodman / Hannah Bebb</td><td>Enw'r Cyfarwyddwr:</td><td>Gaynor Davies</td></tr>
<tr><td>Swydd</td><td>Arweinydd ar gyfer Cynllunio Strategol a'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol / Swyddog y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.</td><td rowspan="3">Rydw i'n argymell bod y cynnig: (Tynnwch sylw at y penderfyniad)</td><td>Yn cael ei roi ar waith heb unrhyw addasiadau</td></tr>
<tr><td colspan="2" rowspan="2"></td><td>Yn cael ei roi ar waith gan ystyried y camau lliniaru sydd wedi'u nodi</td></tr>
<tr><td>Yn cael ei wrthod oherwydd effeithiau negyddol anghymesur ar y Gymraeg</td></tr>
<tr><td>Dyddiad</td><td>17 Tachwedd 2025</td><td>Dyddiad</td><td>17 Tachwedd 2025</td></tr>
</table>